GRID GWYRDD GWENT
GWENT GREEN GRID

# Cylchlythyr Mehefin 2024



Wrth i ni symud i fisoedd yr haf, mae Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent (GGG) yn falch iawn i rannu ein cynnydd a'n llwyddiannau gyda chi drwy'r cylchlythyr hwn.

Gyda chefnogaeth Cronfa Rhwydweithiau Natur y Loteri Treftadaeth a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, mae Partneriaeth GGG yn cynnwys y pump awdurdod lleol yng Ngwent, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill. Drwy raglen eang ac amrywiol o weithgareddau a phrosiectau rydym yn mynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd drwy wella ansawdd mannau gwyrdd mewn ardaloedd trefol a gwledig a gwneud yr amgylchedd yn fwy cydnerth ar gyfer bywyd gwyllt a hefyd bobl.

Bu swyddogion rhanbarthol Partneriaeth GGG yn gweithio gyda'r Grŵp Cyflenwi a'r Grŵp Llywio i ddod â gwerth i'n cymunedau ar draws y rhanbarth. Mae cymaint o waith gwych yn mynd rhagddo fel na allwn roi sylw i'r cyfan yn y cylchlythyr hwn, ond gobeithiwn roi ciplun o'r gwaith amrywiol sy'n mynd rhagddo.

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

## MAPIO RHWYDWEITHIAU NATUR

Mae creu Rhwydweithiau Natur yn brosiect mawr i ni. Bydd y mapiau hyn yn rhoi data gofodol cyflawn a all helpu wrth wneud penderfyniadau, drwy ganfod a rhoi ardaloedd yn eu trefn ar gyfer posibilrwydd adfer natur, gwella cynefinoedd a datblygu seilwaith gwyrdd yn ardal Gwent. Yn seiliedig ar bedwar math o gynefin (coetir, gwlypdir, rhostir a glaswelltir), gall y system ganfod rhannau o dir y gellid eu gwella i gysylltu cynefinoedd a chynyddu cydnerthedd. Wrth i ni wynebu'r argyfwng natur a hinsawdd, mae'n hanfodol ein bod yn edrych am ffyrdd i helpu natur a rhywogaethau i ddod yn fwy cydnerth a chanolbwyntio ein hymdrechion ar y lleoliadau mwyaf addas. Caiff y mapiau eu gwneud yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a byddant ar gael i bob defnyddiwr drwy borth gwe rhwydd ei ddefnyddio.



# NATUR A HINSAWDD

Mae Tîm GGG yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r argyfwng Natur a Hinsawdd, gan gefnogi ac annog unigolion a chymunedau i weithredu, gyda ffocws ar y gwaith cadarnhaol a gyflawnir gan bartneriaid ar draws ardal Gwent. Gallwn i gyd gymryd rhan i ostwng ein heffeithiau ar yr amgylchedd ac i gyfrannu at gyfoethogi cydnerthedd ecosystemau a bioamrywiaeth.

Mae'r gwaith ymgysylltu hwn yn amrywiol gyda ffocws ar ddatrysiadau seiliedig ar natur i helpu mynd i'r afael â heriau newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Gall datblygu ecosystemau cydnerth helpu'n ymarferol gydag addasu, ac ar yr un pryd ddarparu buddion llesiant niferus.

Mae Tîm Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y sir, gan ymgysylltu gydag ysgolion a grwpiau cymunedol mewn amrywiaeth o brosiectau, yn cynnwys digwyddiadau cyhoeddus a chyflwyno gweithdai ac adnoddau ar natur a hinsawdd tebyg i:

- ## Byrddau Rhyngweithiol Helpu Natur i'n Helpu Ni

  Mae'r adnodd deniadol a rhyngweithiol hwn yn dangos y cysylltiad rhwng ecosystemau glaswelltir, coetiroedd, dyfriol a threfol ar draws Gwent. Mae'n dangos sut mae pob ecosystem yn cyfrannu'n gadarnhaol at addasu i'r hinsawdd, llesiant personol/cymunedol, bioamrywiaeth ac yn darparu gwasanaethau ecosystem. Mae'r adnodd yn helpu pobl i ganfod yr hyn y gallant ei wneud i helpu natur i'n helpu gyda newid hinsawdd.




- ## Mae Pecynnau Adnodd a gweithdai Natur a Hinsawdd yn cael eu paratoi i'w cyflwyno i ysgolion a grwpiau cymunedol ar draws yr ardal

  Mewn gweithdy peilot bu grŵp ysgol yn ymchwilio sut mae newid hinsawdd yn effeithio ar afonydd a'u bioamrywiaeth. Rhoddodd ymweliad i afon leol gyfle i bobl ifanc ddarganfod sut mae'r infertebratau a welsant yn gweithredu fel rhywogaeth dangosydd, gan adlewyrchu iechyd yr afon. Fe wnaethant hefyd ystyried effaith llifogydd ar y rhywogaethau hyn a rhywogaethau afonol eraill ac ystyried sut y gallwn ddefnyddio technegau naturiol rheoli llifogydd i helpu arafu llif glaw trwm i nentydd ac afonydd, er budd pobl a bywyd gwyllt fel ei gilydd.





# IECHYD A LLESIANT









Bu creu rhwydwaith cymorth cynaliadwy ar gyfer grwpiau cymunedol yn agwedd allweddol o waith Iechyd a Llesiant Partneriaeth GGG. Yn dilyn cyfarfod cyntaf y cyfarfod 'Rhwydwaith Llesiant' yn Neuadd Memo, Trecelyn ym mis Tachwedd 2023, buom yn cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i hwyluso ail ddigwyddiad y Rhwydwaith Llesiant yng Nghanolfan Gymunedol Gilfach Fargoed ym mis Chwefror eleni. Daeth 25 o ymarferwyr i'r digwyddiad o amrywiaeth o grwpiau cymunedol a sefydliadau partneriaeth yno. Diben y digwyddiad oedd rhannu arfer gorau a lledaenu gwybodaeth gyda ffocws penodol ar ymchwilio cyfleoedd cyllido.

Mae nifer y grwpiau cymunedol sy'n derbyn cyllid a/neu gymorth gan Bartneriaeth GGG wedi parhau i dyfu. Mae bellach 33 grŵp cymunedol ledled Gwent sydd wedi/yn derbyn cymorth a chyllid gan GGG. Pwyslais y cam hwn o'r rhaglen yw cefnogi grwpiau cymunedol llai, y gall symiau bach o gyllid wneud gwahaniaeth mawr iddynt. Dyma ychydig o enghreifftiau o effeithiau y maes gwaith hwn:

Ym Mlaenau Gwent buom yn gweithio gyda 'Growing space' yn eu safle Gerddi Terrance i gefnogi gwella'r safle, er mwyn galluogi ymgysylltu amrywiaeth o grwpiau cymunedol a diddordeb arbennig.

Yng Nghaerffili, fe wnaethom gomisiynu Bywyd Gwyllt Gwent i gyflwyno 'Cwrs Dysgu Awyr Agored Seiliedig ar y Cwriwlwm' gydag achrediad Agored Cymru i 12 athro. Bydd y cwrs yn dechrau ym mis Mehefin 2024.

Rydym hefyd yn peilota prosiect lle mae grŵp o ddisgyblion o Ganolfan Llwybrau Dysgu Heolddu yn ymweld â'r Ganolfan Therapi Ceffylau ym Mamhilad, Sir Fynwy ar gyfer cyfres o sesiynau sy'n anelu i wella eu hyder a'u hunan-dyb yn ogystal â rhoi strategaethau iddynt i ddelio gyda straen, pryder a dicter.

Yn Sir Fynwy buom yn gweithio gyda 'Chyfeillion Pentref Llanisien' i wella safle Cae Glebe i annog bioamrywiaeth drwy reoli tir adferol. Rydym hefyd wedi cefnogi comisiynu artist graffeg lleol i greu byrddau gwybodaeth yn disgrifio planhigion ac anifeiliaid yr ardal.

Rydym yn gweithio gyda chlwstwr o eglwysi yn Nhorfaen i wella'r mannau gwyrdd o'u hamgylch fel cynefinoedd ar gyfer natur a gosod gwelyau uwch fydd yn gwasanaethu fel mannau tyfu bwyd ar gyfer preswylwyr lleol.

Rydym yn parhau ein dull o gynnal asesiadau effaith ar iechyd cyn y cynhelir gweithgareddau prosiect i sicrhau fod ein gweithgareddau yn cyrraedd ystod eang o bobl a grwpiau cymunedol i gynyddu effaith ein prosiectau ar iechyd a llesiant corfforol a meddwl ein cymunedau.

# MYND O AMGYLCH YR ARDAL

Yn ogystal â'r grantiau ar gyfer iechyd a llesiant cymunedol a'r cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant sgiliau gwyrdd, mae'r bartneriaeth wedi helpu sefydliadau mewn ffyrdd eraill. Mae swyddogion Partneriaeth GGG wedi cynnig help ymarferol, cyngor ac arweiniad uniongyrchol ar gynefinoedd a bioamrywiaeth, a rhannu gwybodaeth drwy gyflwyniadau a digwyddiadau ymgysylltu yn y gymuned.






# HYFFORDDI/GWIRFODDOLI







Wrth i ni edrych at ddiwallu anghenion economig wyrdd y dyfodol a thargedau datgarboneiddio, sylweddolwn fod y Deyrnas Unedig yn wynebu bwlch sgiliau gwyrdd yn y sectorau hollbwysig hyn. Mae Partneriaeth GGG yn parhau ei gwaith i ddarparu hyfforddiant sgiliau gwyrdd i wirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a swyddogion. Gan weithio wrth ochr y Swyddog Iechyd a Llesiant Rhanbarthol, gallodd ein Cydlynydd Tirlun a Chefn Gwlad Rhanbarthol gyfeirio cyfleoedd hyfforddiant i'r grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr yr ydym eisoes yn eu cefnogi. Mae enghreifftiau o rai cyfleoedd hyfforddi diweddar yn cynnwys:

- Cwrs QGIC yn Nhalgarth ar gyfer staff ecoleg a chefn gwlad o Gyngor Dinas Casnewydd. Mae'r cwrs 2-ddiwrnod hwn yn rhoi cyflwyniad cadarn da i fapio GIS a chafodd ei ganmol yn fawr gan y rhai a fynychodd.
- Daeth gwirfoddolwr o Grwpiau Llwybr Grysmwnt i gwrs cymorth cyntaf argyfwng awyr agored. Mae'r hyfforddiant yn rhoi'r sgiliau iddynt i ddelio gyda digwyddiadau mewn lleoliadau anghysbell pe byddai'r angen yn codi.
- Cynhaliwyd cwrs coedlannu ar gyfer gwirfoddolwyr ym Mharc Glanyrafon Bedwar. Mwynhaodd gwirfoddolwyr y dydd oedd yn cyfuno sesiynau ymarferol gyda hanes coedlannu, gan roi gwybodaeth am fuddion amgylcheddol y dechneg hynafol hon o reoli coetiroedd.
- Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant perllan yng Nghae Glebe Llanisien. Daeth gwirfoddolwyr draw ar gyfer y diwrnod oedd yn cynnwys sgwrs ar berllannau a'u hanes, a ddilynwyd gan weithgareddau tocio ymarferol a gofal coed ar Gae Glebe.
- Cyrsiau torri llwyni ar gyfer gwirfoddolwyr o grwpiau gofal llwybrau Llanisien a Llanbadog. Roedd y cwrs deuddydd yn cynnwys pob agwedd o ddefnydd a chynnal a chadw peiriannau petrol a thrydan i dorri llwyni, y gwahanol bennau torri a'r gwarchodwyr priodol, offer diogelu personol, iechyd a diogelwch ac ystyriaethau amgylcheddol.

# YN DOD YN FUAN!

**Bydd gwaith y Bartneriaeth yn parhau i wella mannau gwyrdd yn yr ardal yn ystod yr haf. Bydd y tîm yn ymuno â digwyddiadau i rannu a thrafod eu gwaith gyda chymunedau.**

## TapestriBio

Un o'n syniadau mwyaf uchelgeisiol ar gyfer ymgysylltu yw gwneud TapestriBio, yn seiliedig ar (ac yn chwarae ar eiriau) dapestri Bayeux. Bydd TapestriBio Gwent yn dangos tapestri cain a chymhleth bioamrywiaeth sydd yn bodoli yn ein hardal hardd, a'r ffordd y gall ein ecosystemau cryf ein helpu i ymdopi gyda'r heriau a ddaw yn sgil newid hinsawdd. Bydd TapestriBio yn mynd â phobl ar daith drwy'r cynefinoedd a rhywogaethau rhyfeddol Gwent. Caiff ei greu gan ein cymunedau, yn gweithio gydag artist lleol.

natur wyllt nature isn't neat

Wrth i'r tymor plannu barhau, mae ein Swyddog Rhanbarthol Natur Wyllt yn cynnig dulliau, cyngor a chefnogaeth i'n hawdurdodau lleol a chymunedau i wneud yn siŵr fod neges ac ysbryd Natur Wyllt yn dal i dyfu. Mae Natur Wyllt yn hyrwyddo manteision gadael i natur wneud ei pheth ei hun mewn mannau gwyrdd ar draws Gwent, drwy ostwng torri gwair a gadael i flodau gwyllt dyfu. Bu awdurdodau lleol Gwent yn arloesi gyda rheoli mannau gwyrdd mewn ffordd gyfeillgar i beillwyr am flynyddoedd lawer gyda chanlyniadau calonogol. Mae dolydd yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â cholled bioamrywiaeth a gostyngiad planhigion a pheillwyr. Maent hefyd yn galluogi mwy o bobl i brofi natur. Mae ein hardaloedd Natur Wyllt yn fwy na dim ond bod yn wych i fywyd gwyllt, drwy adael i laswellt dyfu'n hirach maent hefyd yn cadw mwy o garbon yn y pridd ac yn helpu i gynyddu ein gallu i wrthsefyll sychder a llifogydd.



Mae gan breswylwyr lleol, grwpiau cymunedol a busnesau rôl hanfodol wrth gefnogi cadwraeth blodau gwyllt a pheillwyr ar draws yr ardal. I helpu pobl i greu eu dolydd eu hunain, mae prosiect Natur Wyllt wedi lansio pecyn adnoddau newydd yn llawn cyngor da ac awgrymiadau defnyddiol. Mae hyn ar gael ar ein gwefan. Byddwn hefyd yn annog mwy o fusnesau a sefydliadau i ennill Achrediad Cyfeillgar i Wenyn. Bydd hefyd gyfleoedd i bobl leol gymryd rhan drwy gynllun gwyddoniaeth dinasyddion 'Wildflower Watch'.

## Digwyddiadau Ymgysylltu

Dros fisoedd yr haf bydd tîm y prosiect yn mynychu digwyddiadau cymunedol ar draws yr ardal. Cadwch lygad amdanom mewn digwyddiadau yn cynnwys **Sioe Brynbuga**, **Mynd yn Wyllt ym Mhont-y-pŵl**, **Sioe Machen** a **Gŵyl Maindee**.